**EITEM AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23ain Hydref 2006**

## ALLDRO AMCANOL 2006-2007

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Pwrpas yr adroddiad yw rhoi amcangyfrif i Aelodau o'r ffigurau terfynol dros dro ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-2007.

## Cyflwyniad

**2.** Caiff gwariant yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig gynted â phosibl fel bod modd sefydlu mesurau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd gwariant o fewn y gyllideb ac y bydd tanwariant o tua £263,919. Mae dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariant mewn cromfachau ( ).

## Amrywiadau i'r Gyllideb

**3.** Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub ar dâl ac mae'n ymddangos y bydd prif faes tanwariant ar dâl. Yn y gorffennol roedd cyfran fawr o'r tanwariant ar dâl oherwydd na ddefnyddiwyd yn llawn y gyllideb ar gyfer ffioedd staff rhan amser er mwyn delio â digwyddiadau yn sgil lefelau

gweithgaredd isel.  Ond eleni yn sgil y lefel uchel o weithgaredd yn ystod misoedd yr haf amcangyfrifir y bydd y gyllideb ar gyfer ffioedd digwyddiadau wedi'u defnyddio'n llawn a hwyrach y bydd gorwariant. Gellir egluro'r tanwariant ar dâl yn bennaf oherwydd y trafferthion, a adroddwyd amdanynt eisoes, wrth geisio recriwtio staff i weithio'r system ddyletswydd rhan amser; arbedion o safbwynt ffioedd ar gyfer achosion yn ystod y dydd; a'r oedi rhwng staff sy'n gadael a chyflogi staff newydd.

**4.** Ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd gorwariant ar gludiant oherwydd bod gwaith cynnal dan ofal contractwyr allanol oherwydd salwch tymor hir a bydd gorwariant ar danwydd yn sgil cynnydd yn lefelau gweithgaredd.

**5.** Dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau mae'r prif faes tanwariant ar gostau cyfrifiadurol oherwydd bod lefel gwariant ar galedwedd a meddalwedd yn llai na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae gorwariant hefyd ar y System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) oherwydd bod y contract cynnal yn llai na'r amcangyfrif, a'r feddalwedd a brynwyd yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

**6.** Yn gyffredinol mae'r amcangyfrif  o'r ffigurau terfynol ar gyfer incwm yn uwch na'r amcangyfrif a hynny'n bennaf oherwydd yr incwm a dderbyniwyd  yn sgil secondiad i Goleg Gwasanaeth Tân na chynhwyswyd yn y gyllideb wreiddiol.  Mae'n ymddangos ar hyn o bryd y bydd incwm gwerthiant yn llai na'r gyllideb, a hynny'n bennaf oherwydd bod y gyllideb wreiddiol ar gyfer gwerthu cerbydau ac offer yn anarferol o uchel.

**ARGYMHELLIAD**

**7.** Mae'r amcangyfrif o'r ffigurau terfynol yn ystyried lefelau gweithgaredd hyd yma ac amcangyfrif o lefelau gweithgaredd yn y dyfodol ar gyfer gweddill y flwyddyn a allai newid. Felly argymhellir bod y tanwariant a ragwelir ar hyn o bryd yn cael ei nodi a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut i ddelio â'r tanwariant pan gyflwynir adroddiad pellach i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub yn Rhagfyr.